

Cofnodion Cyfarfod y 4ydd Medi 2018

Yn bresennol :- Y Cadeirydd **Idris Thomas** a'r Cynghorwyr, Phyllis Ellis, Elfed Wyn Williams, Richard Ll. Jones, Martin Davies, Gareth Wyn Griffiths, Jane Pierce, R Hefin Williams a Emma Chappell.

Croesawyd y Cynghorydd Elwyn Jones

Gwedd: Offrymwyd gair o weddi gan Richard Ll. Jones, lle cyfeiriwyd at golledion mawr yn yr ardal, a chofion arbenig at y teuluoedd yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwyd a'r Cynghorydd Aled Green, a gollodd ei wraig Norma, ers ein cyfarfod diwethaf. Cofion ato a'r plant yn eu profedigaeth.

1.Ymddiheuriadau.

Aled Green, Rhian Evans-Hill a Gwawr Wyn Roberts.

2. Gwasanaeth Clybiau Ieuentid.

Croesawyd Catrin Thomas a John Bryn o adran Ieuentid yng nghyngor Gwynedd i drafod y newidiadau fydd yn y gwasanaeth clybiau ieuentid o hyn ymlaen. Fel y gwyddom, mae'r Cyngor Sir bellach wedi penderfynnu cau yr holl glybiau ieuentid, ac yn eu lle bydd darpariaeth o weithgareddau neu brojectau mewn ardaloedd yn hytrach na noson benodol i fynychu clwb.

Yn dilyn llawer o wrthwynebiad ynglyn a'r drefn, mae'r cabinet wedi ail ystyried ac mae cronfa o £50,000 wedi ei neilltuo ar gyfer y pontio o rwan hyd at fis Mawrth i alluogi ardaloedd sydd dal am geisio cynnal clwb dan adain cymdeithas sefydlog. Mae ychydig o ardaloedd wedi dangos diddordeb yn hyn, a hynny yn cynnwys, Deiniolen. Gan fod Clybiau Ieuentid Bethel, Rhiwlas a Penisarwaun wedi darfod ers tipyn o amser, gofynwyd beth a ddigwyddodd i gyfrifon y clybiau hyn, ac, a oedd balansau ynddynt o hyd? Os oes, yna da o beth fyddai trosglwyddo y balansau yno i gyfrif y Cyngor Cymuned, er mwyn gwneud defnydd i bobl ifanc. Mae John Bryn, am edrych i hyn a chysylltu gyda'r clerch.

Bwriad y Cyngor Sir yw tynnu sylw y pobl ifanc i weithgareddau drwy ledaenu gwybodaeth trwy'r ysgolion Uwchradd. Mae gweithwyr ifanc wedi eu penodi i'r swyddi hyn, a bydd gweithio ar hyfforddi y timau hyn yn elfen bwysig, i'w galluogi i ddelio a sawl sefyllfa. Yn dilyn amryw gwestiwn gan y cynghorwyr, diolchwyd i'r ddau, am ddod i roi braslun ac eglurhad o drefn y gwasanaeth newydd.

3.Datgan buddiant

Dim

4. Cofnodion Cyfarfod 3ydd Gorffennaf

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

R. Hefin Williams (1)

Gareth Griffiths (2)

5. Materion o'r cofnodion

Bin Baw Cwn Brynrefail – Derbyniwyd e byst gan y Cynghorydd Elwyn Jones, yn datgan er ei fod wedi siarad gyda swyddog yn Cyngor Gwynedd, nid yw'r bin baw ci dal heb ei symyd.

A4244 – Cadarnhawyd yn dilyn sawl damwain ger pentref Brynrefail, a'r groesfan, bydd Y

Cynghorwyr Martin Davies a Elwyn Jones yn cyfarfod swyddogion o'r Cyngor Sir ar y safle ar Fedi 11eg.

LLnau Gwlliau -Yn dilyn cais i llnau yn gyffredinnol, cafwyd cadarnhad fod y gwaith o llnau gwlliau ar system rhestr ardal, a bydd y gwaith yn cael ei wneud yn y man ar rota.

Gor Dyfiant – Mae tocio wedi cael ei wneud yn ardal Bethel, ond rheswm nad yw y tocio yn cael ei wneud ar lon Clwt y Bont yw am fod gor-yrru gan yrrwyr bws Arriva. Y clerch i ysgrifennu at y cwmni yn tynnu sylw at hyn.

Arwydd Allt Ddu – Derbyniwyd ymateb o'r Cyngor yn dilyn cais am arwydd yn yr ardal na ellid ei ystyried, gan and yw yn arwydd traffig. Teimlwyd o ran egwyddor, fod cael arwydd enw cywir ar yr ardal yn y Gymraeg yn bwysig. Y clerch i gysylltu yn gofyn amcanbris. Mae y Cynghorydd Elfed Williams yn edrych i mewn i sefyllfa o rai sydd yn aros dros nos yn yr ardal, a bobl yn defnyddio yr ardal at ddefnydd eu hunain, a hyn yn dilyn sawl cŵyn am ddiffyg gwasanaeth toiledau cyhoeddus yno.

Cychod Blodau Rhos Faenol a Rhydfadog, Deiniolen - Mae'n ymddangos fod y broblem gyda'r Cychod Blodau yn Rhydfadog wedi ei setlo. Fodd bynnag, mae trafodeuthau ynglyn a cychod blodau Rhos Faenol dal ymlaen. Mae'r Cynghorydd Elfed Williams mewn cysylltiad a CCG.

Dŵr yn sefyll Ty Mawr – Wedi derbyn llythyr fod yna broblem, ac angen cydgordio gyda Grid Cenedlaethol oherwydd presenoldeb gwifrau trydan, cyn ei adnewyddu.

6. Gohebiaeth a materion eraill

Biniau Halen – Derbyniwyd llythyr gan Glerc Cyngor Cymuned Llanrug yn holi os buasai'r cyngor gyda diddordeb mewn prynu grit a llenwi biniau eu hunain. Penderfynwyd fod y gwasanaeth gan Cyngor Gwynedd llynedd yn arbenig, i feddwl ein bod wedi cael sawl achos i ddibynnu ar y gwasanaeth yn dilyn y tywydd garw. Teimlwyd hefyd fod llawer mwy o finiau halen yn ardal Cyngor Llanddeiniolen nac y sydd yn Llanrug, ac wrth gwrs sawl bin ar dir uchel. Felly cytunwyd yn unfrydol i aros gyda'r gwasanaeth gan Gyngor Gwynedd.

7. Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

Ty Gwyn, Waun – Addasu adeilad presennol yn uned preswyl **Dim Gwrthwynebiad**

1 Cefn Cynrig, Bethel – Estyniad yn y cefn **Dim Gwrthwynebiad**

The Bull Inn, Deiniolen – Newid defnydd Tafarn yn llety gwyliau **Yr un amodau yn sefyll**

Gerafon, Deiniolen – Estyniad drwy godi uchder rhan o'r to presennol. **Dim**

Gwrthwynebiad

Capel Libanus, Clwt y Bont – Newid defnydd capel segur llety gwely a brecwast. **Yr un sylwadau**

Tir Gyferbyn a Tai Madog, Stablau – Gosod gwaith trin carthion. **Dim Gwrthwynebiad**

Y Gelli Gyffwrdd – Tystysgrif Datblygiad Cyfreithloni. **Heb dderbyn yr un cais cynllunio ers rhai blynyddoedd, er ein bod yn tybio fod gwelliant wedi ei wneud ar y safle.**

8. Diweddaraid GDPR

Bellach rydym wedi derbyn y cais yn ôl gan yr ICO. Yr is-bwyllgor i gyfarfod rwan yn ystod y mis i drafod y polisi gwarchod data.

9. Rheoliadau Sefydlog

Roedd y clerc wedi mynd trwy y Rheoliadau Sefydlog yn ystod yr haf, ac wedi uwchleuo y newidiadau oedd wedi eu cyflwyno gan NALC i'r Rheoliadau Newydd.

Cynigiodd y Cynghorydd Richard Ll. Jones i ychwanegu y canlynol tu fewn i eiriad 9b

“Na ellir gwneud unrhyw gynnig/gais ariannol mewn cyfarfod agored o'r cyngor heb fod y cynghorydd penodol wedi datgelu y cynnig yn ysgrifenedig i'r clerc hyd at wythnos cyn y cyfarfod fel bod cynnig penodol hwnnw yn cael ei nodi yn y man priodol ar agenda.”

Eiliwyd hyn yn unfrydol, a chytunwyd i ychwanegu hwn ac yna derbyn y Rheoliadau Sefydlog.

10. Seddi Gwag

Yn dilyn llythyr arweiniol gan yr Adran Etholiadau, Cytunwyd i hysbysebu 2 sedd wag, un yn Ddeiniolen, a llall ym Methel. Y clerc i drefnu gyda Swyddog Etholiadau Cyngor Gwynedd.

11. O gwmpas y Bwrdd

Penisarwaun – O dan draed tu allan i Cysgodfan Bws Penisarwaun yn fwdlud. Y clerc i drefnu fod slabiau yn cael eu rhoi lawr.

Deiniolen – Dywedodd Emma Chappell, fod yn amserol i drefnu i gasglu sbwriel o amgylch y pentref unwaith eto, ac y bydd yn gwneud hyn yn ystod yr wythnosaf nesaf.

Brynrefail – Mae'r fainc yn Trem Eilian yn cael ei chysgodi gan gerrig mawr, ac nid oes posib mynd ati i eistedd. Y clerc i gysylltu a CCG i ofyn iddynt symyd y cerrig.

Toiledau Cyhoeddus Gilfach Ddu – Dywedwyd bod rhai wedi bod yn y toiledau ger y Maes Parcio gyda pobl ddieithr i'r ardal, a bod golwg ar y toiledau, yn fudur ac angen eu tacluso. Y clerc i gysylltu a Cyngor Gwynedd.

Cysgodfan Bws Rhydfadog – Dywedodd Y Cynghorydd Elfed Williams fod 2 berson wedi atgyweirio panel yn y cysgodfan bws yn dilyn fandaliaeth. Y clerc i yrru llythyr yn diolch.